Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion


# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 58** **Calan 2022**

# *Blwyddyn Newydd Dda*




Llun: Unsplash

# Llew

Roedd hi’n dywyll, ac yntau wedi teithio ers bron i 24 awr. Er mor lluddedig ydoedd, roedd ei ysbryd yn llawn cyffro wrth iddo feddwl am gael ymweld â Cape Town am y tro cyntaf.

Safodd yn amyneddgar yn y rhes er mwyn dangos ei basbort a’i fisa. Yno ar fusnes ydoedd ac roedd wedi sylwi bod ambell un o’i flaen yn cael ei alw o’r neilltu i’w holi ac i chwilio’i fagiau’n fanylach.

Doedd dim llawer y medrai ei wneud os byddai’n derbyn y sylw neilltuol gan y swyddog! Felly, doedd dim amdani ond aros ei dro’n amyneddgar a disgwyl am y croesholi anorfod. O’r diwedd daeth at y ddesg.

‘Dewch gyda mi,’ meddai’r swyddog.

Ac fe’i dilynodd i ystafell breifat gerllaw’r ddesg.

‘Eisteddwch.’

Ufuddhaodd.

‘Eich enw a’ch cyfeiriad? ‘

Adroddodd y manylion yn beiriannol bron.

‘Mi welaf eich bod yn bwriadu aros y tu hwnt i’r cyfnod o 90 niwrnod a bod gennych fisa i aros yn Ne’r Affrig am gyfnod estynedig. Pam? Beth tybed sy’n eich cadw y tu hwnt i’r amser hwnnw? Oes gwaith gennych? Ai ar fusnes yr ydych chi yma?’

Atebodd bob cwestiwn yn bwyllog. Wedi’r cyfan, doedd ganddo ddim byd i’w ofni na dim i’w guddio. Ac yna daeth y cwestiwn anorfod.

‘Beth yw eich busnes?’

‘Dwi’n gerfluniwr,’ atebodd, ‘ac fe dderbyniais gomisiwn arbennig fydd yn fy nghadw’n brysur am rai misoedd.’

Edrychodd y swyddog arno’n chwilfrydig gyda gradd o ddiddordeb y tu hwnt i’w ddiddordeb swyddogol.

‘Beth y’ch chi’n mynd i’w gerflunio?

‘Llewod’, meddai.

Dangosodd luniau oedd ar ei ffôn o lewod eraill yr oedd wedi eu cerflunio. Chwarae teg iddo, fe wnaeth y swyddog o leiaf roi’r argraff ei fod yn llawn edmygedd o’r gweithiau blaenorol.

‘O bopeth sydd ei angen ar Dde’r Affrig,’ meddai, ‘fyddwn i ddim wedi dychmygu bod angen cerflun o lewod arnom.’ Trodd i roi’r stamp ar y pasbort a’r fisa. ‘Sut,’ gofynnodd, ‘ydych chi’n mynd ati i naddu llew a sut ydych chi’n llwyddo i wneud i ddarn o garreg difywyd ymddangos mor fyw?’

Eglurodd y cerfluniwr, fel yr oedd wedi ateb mewn sawl cyfweliad cyn hyn.

‘Popeth sydd ddim yn edrych fel llew, dyna’r darn rwy’n ei dorri o’r garreg, ac yn ara’ bach mae’r llew sydd ynghudd yn y garreg yn dod i’r amlwg.’

****

Ac wrth feddwl am eiriau’r cerflunydd sylweddolwn mai cymhellion tebyg i’r cerfluniwr hwn sydd gan yr Arglwydd ei hun. Mae pob un ohonom yn dychmygu ein bod yn llunwyr celfydd o gerflun ein bywydau ein hunain, a’n bod yn feistri ar yr hyn a grëwn.

Y gwir yw mai defnydd anhydrin yw ein bywydau ac ni ddeallwn effaith yr ergydion gwahanol arnynt. Ac er yr hoffem yn ein balchder dybio ein bod wedi cyflawni campwaith y medrwn ymffrostio ynddo yn ein bywydau, does dim ond angen i ni gamu yn ôl i weld mai cerflun anghymesur yw’r hyn a grëwyd gennym.

Pan fydd y Cristion gwannaf yn cydnabod mewn edifeirwch mai smonach oedd ei gampwaith, gan ofyn i’r Arglwydd greu rhywbeth hardd ohono yn ei le, drwy ffydd, mae’n caniatáu i’r Arglwydd ei hun weithio arno ac ynddo.

Bydd popeth sydd heb fod yn ‘Grist debyg’ yn cael ei naddu o’r neilltu. Ac fe wyddom y bydd y gwaith da a ddechreuwyd ynom hefyd, ar ei gyflawniad, yn gampwaith trwy law’r Arglwydd.

Sut fydd yr olwg arnom pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau?

‘Gyfeillion annwyl, yn awr yr ydym yn blant Duw, ac nid amlygwyd eto beth a fyddwn. Yr ydym yn gwybod, pan fydd ef yn ymddangos y byddwn yn debyg iddo, oherwydd cawn ei weld ef fel y mae.’

Gyda’r gobaith hwnnw gadewch i ni wynebu heriau 2022.

*Watcyn James*

**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth,
SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

| | |
|---|---|
| 2 Ionawr | Myfyrdod a gweddi ar ddechrau blwyddyn<br>Cyfarfod Zoom am 5 o'r gloch |
| 6 Ionawr | Clonc a Phaned (a mwy)<br>10.30–11.15, dros Zoom |
| 23 Ionawr | Oedfa'r Ofalaeth yng Nghapel y Garn<br>am 10 o'r gloch |
| 24 Ionawr | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>am 7.30 o'r gloch |
| 26 Ionawr | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd<br>Penfro |
| 4 Mawrth | Dydd Gweddi'r Byd |
| 6 Mawrth | Oedfa'r Ofalaeth yng Nghapel Rehoboth,<br>Taliesin, am 10 o'r gloch |

Gweler hefyd: www.capelygarn.org
Tudalen Facebook: Capel y Garn
Sianel YouTube: Capel y Garn
Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

# Tudalen y Plant



Dyma Rachel. Mae Rachel yn byw mewn pentref yn Affrica. Mae'r tywydd yn sych ac yn boeth iawn yno, ac mae pobl y pentref yn dlawd iawn. Doedd dim toiledau iawn yn y pentref. Felly, roedd arogl drwg ym mhobman gan fod y bobl yn defnyddio ochr y stryd fel toiled. Hefyd, roedd llawer o bryfed yn hedfan o gwmpas ac yn cario germau cas. Roedd Rachel yn cael bola tost yn aml, a ddim yn gallu mynd i'r ysgol.

Un diwrnod, daeth pobl garedig i'r pentref a dangos sut i adeiladu toiledau. Roedd teulu Rachel yn falch o helpu gyda'r gwaith caled.

Dyw Rachel ddim yn cael bola tost o hyd nawr, ac mae hi wrth ei bodd yn gallu mynd i'r ysgol – ei hoff bwnc yw mathemateg.



Mae plant, rhieni a ffrindiau ysgolion Sul Capel Seion, Penllwyn a'r Garn wedi bod yn casglu arian mân i helpu pobl a phlant fel Rachel i gael toiledau. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogi.

# Gweddïo ar ddechrau'r flwyddyn



*Lobi Tŷ'r Cyffredin (CC BY-NC-ND 2.0)*

Os cewch chi gyfle rywdro i ymweld â Thŷ'r Cyffredin yn San Steffan, manteisiwch ar y cyfle! Wrth i chi syllu ar y cerfluniau o bobl bwysig a dylanwadol o'r oesoedd a fu, neu edrych i fyny i syllu ar eiconau o seintiau amrywiol gwledydd Ynysoedd Prydain, fe fyddai'n rhwydd iawn i chi beidio â sylwi ar yr adnod o'r Beibl sydd wedi ei gosod ar lawr y lobi. Yno mewn Lladin gwelir yr adnod: 'Os nad yw'r ARGLWYDD yn adeiladu'r tŷ, y mae ei adeiladwyr yn gweithio'n ofer' (Salm 127:1).

Yn ôl y Salmydd, mae modd llafurio'n ofer ac y mae modd gweithio'n llwyddiannus. Mae hyn yn wir ar lefel bersonol, ar lefel gynulleidfaol ac enwadol, yn genedlaethol a rhyng-genedlaethol hefyd.

Does neb ohonom am ddarganfod mai ofer oedd ein holl ymdrech i gyflawni gorchwyl a olygodd dipyn o amynedd neu ymdrech a nerth bôn braich! Tipyn o siom fyddai gosod drws yn y porth ac wrth osod y sgriw olaf yn ei lle darganfod fod y tŷ cyfan yn dadfeilio!

Yn yr un modd, meddai Gair Duw, ofer fydd ein holl gynlluniau fel cynulleidfaoedd wrth i ni geisio wynebu heriau'r dyfodol os nad yw'r Arglwydd yn adeiladu'r tŷ. Wedi'r cyfan, ei Dŷ ef yw'r eglwys ac Ef sy'n gwybod pa fath o dŷ y mae am roi o'i bresenoldeb i drigo ynddo.

Carwn eich gwahodd i ymuno â ni mewn cyfarfod trwy Zoom ar **2 Ionawr** i geisio wyneb yr Arglwydd. Byddwn yn cyfarfod am **5.00** yr hwyr. Bydd emyn a mawl a chyfle i ni rannu ein gweddïau. Gadewch i ni geisio'r Arglwydd.

*Watcyn James*

## Clonc a Phaned (a mwy)

Yn ystod y 'clo mawr' cynhaliwyd Clonc a Phaned gennym drwy Zoom ar foreau Iau rhwng 10:30 a 11.15.

Bu nifer yn holi a fedrem ailgynnull y grŵp?
Wedi'r cyfan, meddent, bu'r gwmnïaeth reit anffurfiol yn ddiddan ac yn werthfawr, ac fe ddaethom i adnabod pobl ar draws yr ofalaeth i gyd.

Bu eraill yn holi pryd tybed a fedrem ailddechrau'r grŵp 'Gwreiddiau' gan eu bod yn gweld colli'r gwmnïaeth a'r drafodaeth honno.

Wedi pendroni, deuthum i'r casgliad fod modd i ni gyfuno'r gorau o'r ddau gyfarfod mewn un cyfarfod cynhwysol!

Felly, byddwn yn cyfarfod i gael clonc a phaned a sgyrsiau gwahanol, myfyrdod a gweddi fer – fel ag o'r blaen – trwy Zoom. Anelwn at ddechrau cyfarfod fore dydd Iau, 6 Ionawr, rhwng 10.30 a 11.15.

Bydd y ddolen ar gael yn y flwyddyn newydd. Bydd croeso, fel o'r blaen, i chi wahodd unrhyw un atom.

*Watcyn James*

## Gweddïau ar ddechrau 2022

### Gweddi am ffydd

Dduw annwyl, rho i ni drwy Iesu Grist dy Ysbryd Glân fel y cawn ein diddanu gan dy atgyfodiad, a phob dydd gad i ni gynyddu mewn ffydd, sicrwydd a gobaith, ac yn y diwedd bod yn gadwedig. Amen.

*Martin Luther*

### Gweddi am ffydd i wasanaethu

Hollalluog Arglwydd Dduw, rho i ni wir ffydd, a chaniatâ i'r ffydd honno dyfu ynom o ddydd i ddydd. Rho i ni obaith a chariad fel y medrwn wasanaethu ein cymydog yn unol â'th ewyllys.

Gweddïwn hyn drwy dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd, yr hwn sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac yn oes oesoedd, Amen.

### Gweddi am fendith ar ddyddiau'r flwyddyn

O Dduw, bendithia'r dydd newydd hwn i mi, diwrnod na roddwyd i'm gofal cyn hyn. Fe'i rhoddwyd er mwyn i mi fendithio dy bresenoldeb; ti yw'r un a roddodd yr amser hwn i mi.

O Dduw, bendithia fy llygaid. Bydded i'm llygaid fendithio popeth y maent yn eu gweld. Bendithiaf fy nghymydog, a bydded i'm cymydog fod yn fendith i mi.

O Dduw, rho galon lân i mi, a chadw fi rhag crwydro o'th olwg di. Bendithia fy nheulu, a bendithia i mi fy nghyfoeth a'm da i gyd. Bendithia'r cyfan er mwyn dy wasanaeth a'th ogoniant, yn Iesu Grist. Amen.

## Gweddi mewn byd cythryblus

Duw gobaith, mewn oes mor ansefydlog a chyfnewidiol â hon, gweddïwn dros gynulleidfaoedd dy Eglwys drwy Gymru gyfan. Adnewydda dy bobl drwy dywalltiad grasol o'th Ysbryd Glân. Dyro weledigaeth newydd i'n harweinwyr – yn genedlaethol ac yn lleol – ynghyd â doethineb a dyfalbarhad. Dyro i ni orchfygu ein hofnau, a chynorthwya ni i adeiladu dyfodol lle gall pob cynulleidfa ffynnu a chyfrannu o'r newydd yn llawnder dy ras, drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.



## Gweddi am heddwch yn ein byd

Caniatâ i ninnau, Arglwydd Dduw, weledigaeth o'r byd fel y gallai fod drwy dy gariad:

> byd lle caiff y gwan eu hamddiffyn, lle na fydd unrhyw un yn newynu nac yn dlawd;
>
> byd lle bydd llawnder bywyd yn cael ei rannu fel y gall pawb fwynhau cyflawnder bywyd;
>
> byd lle gall cenhedloedd a diwylliannau gwahanol gyd-fyw gan oddef ei gilydd mewn ysbryd o gyd-ddibyniaeth;
>
> byd lle mae cyfiawnder a heddwch yn ffrwytho dan arweiniad dy gariad di.

Rho i ni'r weledigaeth fawr a'n try o'n crwydro ffôl,
ynghyd â'r dewrder i roi ein bryd ar adeiladu byd o'r fath,
drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

## Penllwyn

## Sul Nadolig y Teulu


Ar Sul, 12 Rhagfyr, cawsom wasanaeth hyfryd yng Nghapel Penllwyn dan arweinyddiaeth Dr Watcyn James pryd y cymerodd y plant, ieuenctid ac oedolion ran.

Thema'r gwasanaeth oedd 'Yr Addewid Amhosib'. Cyhoeddwyd y llyfryn gan Gymdeithas y Beibl a dangoswyd ffilm yn ymwneud â genedigaeth ryfeddol Iesu Grist. Darllenwyd yr hanes o Efengyl Luc ond roedd cael ei weld ar sgrin yn dod â'r hanes yn fyw i bob un.

Trefnodd ein Gweinidog gwis yn seiliedig ar yr hanes, a chafodd teuluoedd y plant Feibl yn rhodd ar ddiwedd y bore.

Diolch i bob un a gymerodd ran; gan nad ydym yn medru cwrdd fel Ysgol Sul eto, roedd yn bleser gweld a chlywed y plant yn mynd trwy eu gwahanol dasgau.

Nadolig Llawen iawn i chwi i gyd, a diolch i Dr Watcyn James am baratoi gwasanaeth mor urddasol ar ein cyfer.



## Capel y Garn

## Ionawr

## Blaenor y mis: Gruffydd Aled Williams

| | |
|---|---|
| 2 | Oedfa am 10 o’r gloch dan arweiniad<br>y Parch Athro John Tudno Williams |
| | Myfyrdod a gweddi ar ddechrau blwyddyn<br>dan arweiniad ein Gweinidog dros Zoom am 5 o’r gloch |
| 6 | Clonc a Phaned (a mwy)<br>10.30–11.15, dros Zoom |
| 9 | Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o’r gloch |
| 11 | Pwyllgor Swyddogion y Garn am 10 o’r gloch |
| 16 | Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o’r gloch |
| 21 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch dros Zoom<br>‘William Francis Hughes, Oerddwr (1879–1966):<br>bardd gwerth ei gofio’ – sgwrs gan Dr Bleddyn Huws |
| 23 | Oedfa’r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o’r gloch |
| 24 | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth am 7.30 o’r gloch |
| 30 | Oedfa dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths<br>am 10 o’r gloch |

**DS** Byddwn yn parhau i ddilyn y canllawiau perthnasol o ran Covid-19, a gofynnir yn garedig i chi beidio â mynychu’r gwasanaethau os bydd gennych unrhyw symptom o’r feirws (e.e. tymheredd uchel, peswch newydd a pharhaus, colli synnwyr blasu neu arogli &c). Mae hi’n dal yn ofynnol inni wisgo mwgwd bob amser yn ein gwasanaethau, yn ogystal â chadw pellter oddi wrth ein gilydd. Mae diheintydd hefyd ar gael i ddiheintio eich dwylo.

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Cyfarfu'r aelodau yn festri capel Rehoboth brynhawn Mawrth, 12 Hydref, a chafwyd dathliad i nodi deng mlynedd ar hugain ers ailgychwyn y Gymdeithas gan Myfanwy Rowlands a'r ddiweddar Nesta Evans ym mis Hydref 1991. Croesawyd yr aelodau gan Eiriona Metcalfe, ac yna adroddodd Carys Briddon ychydig o hanes cynnar y Gymdeithas, a ffurfiwyd i ddechrau yn y 1950au, yn ôl yr wybodaeth a gafwyd mewn rhifynnau o *Lloffion Llangynfelyn* o'r cyfnod hwnnw. Cafwyd hanes yr ailgychwyn yn 1991, ar ôl toriad o rai blynyddoedd, gan Myfanwy Rowlands, a nododd eu bod yn disgwyl rhyw hanner dwsin i fynychu'r cyfarfod cyntaf, ond roedd yno dros ugain o wragedd. Mae'r un drefn o wahodd siaradwyr diddorol i'r cyfarfodydd a gorffen gyda phaned o de yn dal i fodoli ers y cyfarfod cyntaf hwnnw.

Cyflwynodd Eiriona dusw o flodau i Myfanwy fel gwerthfawrogiad o'i chyfraniad a'i phresenoldeb yn y Gymdeithas am dros ddeng mlynedd ar hugain. Mwynhawyd paned a lluniaeth wedi ei baratoi gan Meinir Fleming i orffen y cyfarfod.

Yn y cyfarfod ar brynhawn Mawrth, 9 Tachwedd, estynnodd Eiriona Metcalfe groeso i'r Athro Hazel Walford Davies, Aberystwyth, a hefyd i Audrey Evans, a ddaeth yn gwmni iddi. Teitl y sgwrs oedd 'Dod i adnabod Syr O. M. Edwards', a chawsom hanesion diddorol am ei ymweliadau â'r ardal yma. Bu ef yn traddodi anerchiad adeg sefydlu Edward, Tywysog Cymru, yn Ganghellor Prifysgol Cymru yn Aberystwyth ym mis Mehefin 1896, ac yn ystod ei gyfnod fel Arolygydd Ysgolion ymwelodd ag Aberystwyth a'r ardal yn 1912.

Yr adeg honno roedd nifer o ddynion enwog â chysylltiad â'r coleg yn byw yn y dref, a diddorol oedd clywed yr hanesion am O. M. Edwards yn ymweld â hwy yn eu cartrefi a chael gwybodaeth am ble yn union yr oedd y cartrefi hynny. Diolchwyd i'r Athro Hazel Walford Davies am sôn am rai o ddigwyddiadau cyffrous y cyfnod hwnnw a'r rhan a chwaraeodd un o ddynion mawr ein cenedl yn yr hanes.

*Carys Briddon*

## Capel y Garn – Chwefror

## Blaenor y mis: Marian Beech Hughes

6 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o’r gloch

13 Oedfa’r bore yng Nghapel Noddfa am 10 o’r gloch

18 Cymdeithas Lenyddol y Garn
‘Sefydlu Cymdeithas yr Iaith’ – Cynog Dafis
am 7.30 o’r gloch dros Zoom

20 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o’r gloch

27 Oedfa Gŵyl Ddewi am 10 o’r gloch

## Mawrth

## Blaenor y mis: Alan Wynne Jones

4 Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd
Trefniadau’r gwasanaeth i’w cadarnhau

6 Oedfa’r ofalaeth yng Nghapel Rehoboth, Taliesin
am 10 o’r gloch

13 Oedfa dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths
am 10 o’r gloch

18 Cymdeithas Lenyddol y Garn
‘Dathlu Gŵyl Ddewi’
yng nghwmni Gwenan Gibbard
Y trefniadau i’w cadarnhau

20 Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog
am 10 o’r gloch

27 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o’r gloch

# Capel y Garn

## Newid swyddogion

Mae diwedd y flwyddyn 2021 yn nodi diwedd tymor dau o swyddogion y Garn, gydag ymddeoliad Mrs Mary Thomas, ein Trysorydd diwyd, a Mr Bryn Roberts, ein Hysgrifennydd Ariannol cydwybodol. Rhoddodd y ddau flynyddoedd lawer o wasanaeth diflino, a mawr yw ein gwerthfawrogiad fel eglwys o'u llafur.

Pleser yw croesawu ein Trysorydd newydd, Mr Glyn Saunders Jones, ac mae ein diolch yn fawr iawn iddo am fodloni i ymgymryd â'r swydd hollbwysig hon mewn cyfnod mor heriol.

Mae Mr Alan Wynne Jones yn parhau yn Ysgrifennydd yr eglwys am gyfnod pellach, dros dro, nes y sicrheir olynydd iddo. Rydyn ni'n arbennig o ddiolchgar iddo yntau am y gymwynas hon. Os ydych yn fodlon ystyried cyflawni'r swydd hon, neu rannau ohoni, cysylltwch ag un o'r swyddogion, os gwelwch yn dda, i fynegi eich diddordeb. Diolch yn fawr i bawb am eu cydweithrediad.

## Llongyfarchiadau calonnog:

i Delyth Jones ar ei llwyddiant yn adran gwaith crefft Merched y Wawr yn y Sioe Aeaf yn Llanelwedd.

## Anfonwn eich cofion:

at rai o'n haelodau a chyfeillion sy'n derbyn triniaeth neu sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Hyderwn eich bod yn profi cysur yr Arglwydd yn eich cynnal ac y cewch adferiad iechyd buan.

**Dymunwn fendithion yr Ŵyl
a Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr 'Gair o'r Garn'.
Diolch am eich cefnogaeth
yn ystod y flwyddyn.**




Diolch yn fawr iawn i Gwenda James, Taigwynion, am greu'r bynting hyfryd a lliwgar yma i addurno sêt fawr Capel y Garn dros gyfnod yr Adfent a'r Nadolig



## Cymdeithas Lenyddol y Garn


Swynol, diddorol a difyr oedd cyflwyniad Robat Arwyn i'r Gymdeithas ar Zoom ar 15 Hydref dan y teitl 'Y Gair tu ôl i'r Gân'. Yn ogystal â sgwrs am hanes y geiriau oedd wedi sbarduno'i gyfansoddiadau cerddorol, cawsom berfformiadau caboledig ganddo o'r caneuon, i'w gyfeiliant ef ei hun ar y piano.

Y wraig wadd yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r Gymdeithas, a gynhaliwyd dros Zoom, nos Wener, 19 Tachwedd, oedd Gwenllian Grigg, a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddi ar ei gwaith fel 'Menyw Newyddion'. Cyfeiriodd at ei magwraeth yn Nhalgarreg, a ysgogodd ei diddordeb mewn materion cyfoes, a soniodd am ei phrofiad yn gwirfoddoli gyda ffoaduriaid yn Slofenia ar ôl dilyn cwrs prifysgol.

Yn dilyn hynny, ymunodd â staff y BBC ac mae hi bellach yn llais cyfarwydd fel un o gyflwynwyr *Dros Frecwast* ar Radio Cymru. Roedd clywed am y gwaith paratoi manwl sy'n digwydd er mwyn sicrhau rhaglen raenus a chytbwys bob bore, a'r angen i fod yn hyblyg gan ymateb i amgylchiadau sy'n gallu newid ar amrantiad, yn agoriad llygad yn wir. Cyflwynwyd Gwenllian gan Gadeirydd y Gymdeithas, Mrs Liz Lloyd Jones, a diolchodd iddi am sgwrs oedd yn rhoi cipolwg difyr a dadlennol ar ei gwaith.

Daeth mwyniant y Nadolig i'n haelwydydd yng nghyfarfod-dros-sŵm y Gymdeithas ar Ragfyr y 10fed, pan fu Arfon Gwilym a Sioned Webb yn ein goleuo a'n diddanu â rhaglen amrywiol o garolau. Bydd perseinedd y ddeuawd ar ddwy delyn yn aros yn hir yn y cof; felly hefyd y teimlad annisgwyl o awyr iach a ddaeth o glywed, a gweld, carol yn cael ei chanu ar glos fferm.

Er cymaint y gwacter o beidio cael cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb, mae ein diolch yn anferth i'r rhai sydd wrthi'n darganfod ffyrdd creadigol i lenwi'r gwacter hwnnw.



Robat Arwyn yn ei elfen yn diddori
Cymdeithas Lenyddol y Garn



Stiwdio brysur tîm rhaglen *Dros Frecwast*
BBC Radio Cymru

## Pen-y-garn

Tair potel tsieni
wedi eu croeshoelio
ar bren a biclwyd o dir y plas,
twrbin yn corco'r dydd a'r nos –
dyma i mi oedd Pen-y-garn.

Canys Iard Garn House oedd nerf trydan y fro.
Hen siediau sinc yn crynu uwchben deinamo
a gorddai alwyni o asid yng nghaethiwed y celloedd gwydr.

Pan ddychwelsom i dir ein gwreiddiau
'roedd y brawd mawr Manweb
wedi monopoleiddio goleuni'r gymdogaeth

Eithr disyfl y deml sgwâr ar fin y ffordd
a'i sanhedrin a reolai wres ysbrydol y fro.

Gweinidog, yn bachu'r lamp uwchben y praidd,
paffiwr, athletwr wrth anian
ond iddo golli ei ornest â'r Ysbryd Glân,
y blynyddoedd yn marweiddio'i dân, a'i weddi'n falm –
hyd nes gwreichionai'r natur gynhenid yn y Gobeithlu!

A'r cerddor, tywalltai olew ar dân y mawl.
Dwylath o Oleiath â chraith y pwll glo
yn wythïen las ar ei dalcen,
dadansoddi lleisiau fel hollti glo
a'i dymer heb fod mor sefydlog â'i nodyn!

A'r Galamilel, bardd penwyn y deml
a'i wybodaeth yn eiddigedd prifysgol.
Ato ef y llwybreiddiai'r pryddestau a'r awdlau
oedd ar briffordd y genedlaethol
i'w trwsio a'u pedoli
cyn eu gollwng ar daith tua'r dosbarth cyntaf.

Y drindod hyn oleuodd i mi'r gwifrau
i dywyllwch hen ddiwylliant fy mhridd
a gynhyrchai ffwrn o gariad at y fro,
rhag llithro i drymder gwres canolog
ystafelloedd Philistia bell
ac ymdrybaeddu yn lludw'r rhyfel mawr.

A heddiw mae Pen-y-garn
yn trydanu trwof.

Dyma gerdd gan Vernon Jones o'i gyfrol *Gogerddan a cherddi eraill*, a gyhoeddwyd yn 1982. Mae hi'n deyrnged gadarnhaol ddiffuant a chynnes i Gapel y Garn a'r bobl a roddodd iddo'r gwerthoedd a lywiodd ei lwybr gydol ei fywyd.

Yn nhridegau a phedwardegau'r ganrif ddiwethaf Garn House oedd yn darparu trydan i roi gwres a golau i ardal y Garn. Pan ddôi Vernon, yn fachgen bach, gyda'i rieni o fferm Bach-y-Rhew, Llanfarian, i ymweld â theulu ei dad yn Garn House, yr hyn oedd yn ei gyfareddu oedd y pyst a'r dyfeisiau oedd yn cynhyrchu'r pŵer ac yn ei ddosbarthu i'r tai. Erbyn i'r teulu symud yn ôl i fyw yn y Gaerwen yn 1947 roedd Manweb wedi cymryd y swyddogaeth honno drosodd, ond Capel y Garn, 'y deml sgwâr ar fin y ffordd' oedd yn dal i roi 'gwres ysbrydol' i'r ardal.

Roedd tri gŵr dylanwadol yn y 'sanhedrin' (grŵp swyddogol awdurdodol y deml gynt), sef:

i. y Gweinidog, y Parch J Wallace Thomas, a fu yn ei ieuenctid yn baffiwr brwd, ac a fyddai, weithiau, yn defnyddio'i sgiliau paffio i ddisgyblu ambell i fachgen didoriad yn y Gobeithlu oedd yn cwrdd yn y festri bob nos Wener;
ii. J T Rees, y cerddor, a fu, yn ei ieuenctid, yn gweithio dan ddaear yn y pwll glo a'r graith las ar ei wyneb yn tystio i hynny. Roedd yntau'n ddisgyblwr llym ar blant ac oedolion, ac er mai dim ond ei lais a'i eiriau a ddefnyddiai i gyrraedd ei nod, gallen nhw fod yn arfau llym;
iii. Dewi Morgan, a fu'n benwyn er pan oedd yn ifanc. Er na chafodd fawr o ysgol roedd yn ddyn tra hyddysg, hunan-addysgedig. Enillodd Gadair y Genedlaethol yn 1925 gydag awdl i Gantre'r Gwaelod; bu'n cynghori ac yn rhannu ei wybodaeth â nifer fawr o feirdd yr ardal.

Dan ddylanwad y tri ymdrwythodd Vernon yn hanes a diwylliant ei fro a'i wlad yn hytrach na chael ei hudo gan fateroliaeth gysurus a'r filitariaeth oedd mor gyffredin ymhlith bechgyn ifainc y blynyddoedd ar ôl y rhyfeloedd.

*Llinos Dafis*

# Mrs Anne Davies, Penllwyn

Gyda thristwch, ac eto gyda diolch, y cofiwn am ein chwaer, Mrs Anne Davies neu, fel y byddem yn ei chydnabod, Mrs Martin Davies. Er iddi orchymyn yn aml “galwch fi yn Anne” anodd oedd ildio a’i phriod hawddgar wedi bod yn Brifathro arnaf am fy mlwyddyn olaf yn ysgol Penllwyn.

Nid aelod ar bapur yn unig oedd ein chwaer ond aelod brwdfrydig a gweithgar ym mhob agwedd o fywyd yr eglwys. Nid oedd unrhyw dasg neu orchwyl yn ormod – cyfeilio, athrawes ysgol Sul, ynghlwm â llyfrau’r eglwys – beth bynnag oedd i’w gyflawni, fe’i gwnâi yn siriol a llawen, â phob dim yn gorfod bod o safon uchel iawn. Roedd yn athrawes ysgol Sul benigamp a chanddi ddosbarth o ieuenctid brwdfrydig yn y blynyddoedd olaf, a pharch mawr gan bob un ohonynt tuag ati.

Mrs Davies fyddai’n cyflawni’r dasg o ddysgu emynau’r Detholiad i’r plant cyn y Gymanfa Ganu bob blwyddyn ym mis Mai, a gwnâi yn siŵr y byddai plant Penllwyn, beth bynnag, yn gwybod eu gwaith yn drwyadl.

Roedd y pumdegau a’r chwedegau yn gyfnod llewyrchus ar yr eglwys a llawer o’r aelodau yn mynychu’r oedfaon, yr efengyl yn cael ei chyflwyno mewn dull gwahanol, heriol a bywiog, ac roedd hyn yn apelio yn fawr at ein chwaer. Byddai parch ganddi at bob Gweinidog a fu’n gweinidogaethu yn yr eglwys a chadwai mewn cysylltiad cyson â’r teuluoedd.

Bu Dr Watcyn James a Lowri yn ofalus iawn ohoni ac roedd y deyrnged hardd ddydd ei hangladd yn tystio i’w hadnabyddiaeth ohoni. Ym mhob cyfnod, dan bob bugeiliaeth, bu’r dosbarth Beiblaidd yn allweddol i’w bywyd a byddai ei chyfraniad yn fendithiol bob amser.

Bydd llawer ohonom fel aelodau’r capel yn gweld eisiau ein seiadau cyson ar bnawn glawog yn y gaeaf pryd y byddai pregeth y Sul cynt a hefyd faterion y dydd yn cael eu trafod.

Bu i’w ffydd gadarn ei chynnal ar hyd y daith ac er iddi golli ei hannwyl briod rhyw ddeng mlynedd yn ol, teimlai’n ddiolchgar, er yn hiraethus iawn, am a gafwyd.

Ni pheidiodd ag ymweld a’r claf a’r unig, gorchest y byddai’r ddau yn ei chyflawni’n gyson, â phob aelod yn gwerthfawrogi’r ymweliadau yn fawr.

Diolch am gael y cyfle i gerdded ychydig o'r daith yn ei chwmni. Byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr ond, yn ei geiriau hithau, diolch am a gafwyd.



Cydymdeimlwn yn ddiffuant a Delyth ac Iona – 'cledd â min yw claddu Mam'. Diolch am eu gofal arbennig a'u cariad tuag ati, a gweddïwn y cewch nerth yn ôl y dydd, â'r adnod ar y daflen yn gysur ac yn cyfri sut gymaint i'ch Mam fel ag y mae i chithau, "Yr Arglwydd yw fy Mugail, ni bydd eisiau arnaf".

Pa neges well i'w gadael gennych, deulu bach, na "Bwrw dy faich ar yr Arglwydd, ac Efe a'th gynnal di" – neges sydd mor berthnasol i ni i gyd y dyddiau hyn?

Pan symudodd Mrs Davies i fyw i Benllwyn, ymunodd â gwragedd ifanc yr eglwys yn y dosbarth ysgol Sul. Ei hathro ar y pryd oedd Owen Morgan, ac fe gawsant y dasg o ddysgu emyn Frances Havergal: "Cymer, Arglwydd, f'einioes i, / I'w chysegru oll i Ti". Byddai deigryn yn dod i'w llygaid bob tro wrth adrodd yr hanes. A dyna'r emyn a ganasom er cof am y chwaer arbennig hon.

*Heulwen Lewis*




Yn ddiweddar, mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi mabwysiadu Polisi Amgylcheddol blaengar, a dyfynnir yma’r hyn sy’n berthnasol i waith yr eglwysi lleol.

**Fel eglwysi yn lleol fe fyddwn yn gwneud y canlynol**:

- sicrhau cyflenwyr trydan a nwy sy’n buddsoddi mewn ynni gwyrdd, e.e. Ecotricity, neu Good Energy
- cyd-addoli / rhannu adeilad neu ddefnyddio adeilad cymunedol mwy ecogyfeillgar i gyfarfod â’n cyfrifoldeb i fyd Duw
- defnyddio (a gwerthu) nwyddau Masnach Deg a nwyddau lleol yn ein cartrefi a’n heglwysi
- archwilio’r posibilrwydd o gefnogi mentrau cynhyrchu ynni gwyrdd yn lleol
- peidio defnyddio plastig a ddefnyddir unwaith, a defnyddio papur sy’n dod o ffynonellau gwyrdd
- symud at systemau gwresogi sydd yn osgoi defnyddio tanwydd ffosil yn ein holl adeiladau, gan gynnwys ein capeli, tai capel, mans ayyb
- gwerthuso’r balans rhwng adeilad golau a chynnes sy’n groesawgar, a’r angen i osgoi gwastraffu ynni
- dadfuddsoddi mewn unrhyw gwmnïau sy’n cloddio am danwydd ffosil, neu’n hybu tanwydd ffosil os yw’r eglwys yn buddsoddi ei harian ei hunain; a
- hwyluso rhannu teithio, neu addasu amser oedfaon os yw hynny’n hwyluso’r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

# Dydd Gweddi'r Byd



Bydd gwasanaethau arbennig Dydd Gweddi'r Byd yn cael eu cynnal ddydd Gwener, 4 Mawrth 2022. Chwiorydd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sydd wedi bod yn gyfrifol am lunio'r gwasanaeth ar gyfer 2022 ac mae'r thema'n seiliedig ar adnod yn llyfr Jeremeia, sef "Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer" (29:11).

Trwy gyfrwng gwaith tecstiliau, brodwaith *appliqué* a gwaith metel, mae'r arlunydd Angle Fox wedi dewis nifer o ddelweddau ar gyfer clawr y daflen i ddarlunio'r geiriau allweddol:

**rhyddid** – drws sy'n agor ar lwybr dros ehangder diderfyn;

**cyfiawnder** – cadwyni wedi'u torri;

**tangnefedd Duw a maddeuant** – colomen a lili heddwch yn torri drwy'r palmant.

Dros y cyfan ceir **enfys** sydd wedi cynrychioli'r pethau hyn ers stori Noa a hyd heddiw. Mae'n arwydd o gyfamod Duw â dyn, a bellach mae'n arwydd o undod rhwng gwahanol rannau o'n cymuned.

Mae CD ROM o'r sleidiau ar gyfer y gwasanaeth a'r CD gerddorol ar gael drwy gysylltu â'r Swyddfa Ganolog yn Tunbridge Wells: 01892 541411; www.wwdp.org.uk.

Os dymunwch gael copïau o raglen y gwasanaeth, mae croeso i chi eu harchebu drwy gysylltu â Margaret Morgan, Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam LL11 4FF; 01978 756717

## Hadau Gobaith – apêl EBC ar gyfer 2022

'Mae cyfiawnder wrth galon yr Efengyl, ac y mae a wnelo cyfiawnder hinsawdd â chyfiawnder cymdeithasol yn ein byd ni hefyd. Rydym yn cydnabod fod effeithiau dwysaf newid hinsawdd yn effeithio ar wledydd a chymunedau tlotaf ein byd. Drwy sefyll yn erbyn anghyfiawnder hinsawdd, a chymryd cyfrifoldeb ein hunain, yr ydym fel Eglwys, ac fel creadigaeth gyfan, yn canmol a gogoneddu Duw ein creawdwr.' Dyma ddyfyniad o'n polisi amgylcheddol ni fel Cyfundeb.

Nid cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith ein bod fel Eglwys yn y Gymanfa eleni, wedi lansio Apêl Cymorth Cristnogol ar gyfer 2022 ar thema am y tro cyntaf, sef 'Cyfiawnder Hinsawdd'. Byddwn yn edrych ar enghreifftiau o effaith newid hinsawdd ar Kenya ddechrau'r flwyddyn ac yna Haiti erbyn mis Medi.

Teitl yr apêl fydd 'Hadau Gobaith'. Pan lansiwyd strategaeth newydd Cymorth Cristnogol yng Nghaerdydd ym mis Ebrill 2019, rhoddwyd pwyslais ar dri nod: rhoi, ymateb a gweddïo. Ein nod ninnau yn 2022 fydd gosod targed o £250,000 ar gyfer yr apêl.

Ymatebwn drwy weithredu ein polisi amgylcheddol fel Cyfundeb cyfan, fel henaduriaeth, eglwysi ac fel unigolion. Fe fyddwn hefyd yn rhannu deunydd addoli, yn eich annog i weddïo, ac fe obeithiwn gael cyfleoedd i edrych ar y Beibl gyda chymunedau ac eglwysi eraill yn y byd o dan gynllun 'Just Scripture' Cymorth Cristnogol.

Edrychwn ymlaen yn fawr am flwyddyn ein Apêl.
Dymunwn yn dda i bawb wrth baratoi.

*Y Parch Nan Wyn Powell-Daves* (o *Lais y Gymanfa*)

**Swyddogion yr Ofalaeth**
Cadeirydd: Ina Tudno Williams, Capel Seion
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)
Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **13 Mawrth** i'r golygydd:
Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662; marian_hughes@btinternet.com